



## **Cylchlythyr y Rhaglen Delweddu Genedlaethol Ch1 2023-24**

### **Croeso i'r chweched rhifyn o Gylchlythyr y Rhaglen Delweddu Genedlaethol!**

Fel y dywedwyd yn y rhifyn diwethaf, ar 1af Ebrill 2023 fe ddaeth Cydweithrediad lechyd GIG Cymru a nifer o sefydliadau eraill yn rhan o Weithrediaeth GIG Cymru. Swyddogaeth gefnogi genedlaethol sydd ganddi, gan ddarparu cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth gadarn – gan alluogi, cefnogi a chyfarwyddo GIG Cymru i drawsnewid gwasanaethau clinigol yn unol â'r safonau a'r blaenoriaethau cenedlaethol.

Ar 1af Hydref 2023, ymunodd y Rhaglen Delweddu Genedlaethol â'r Rhaglen Strategol dros Ofal wedi'i Drefnu sy'n cynnwys Gofal wedi'i Drefnu Canser a Diagnosteg. Mae'r strwythur llywodraethu yn dal i gael ei drafod, ond fel rhan o'r strwythur Diagnosteg rydyn ni'n dal i fod wedi ymrwymo i'n gweledigaeth 3-5 mlynedd ac i gyflawni Datganiad o Fwriad Llywodraeth Cymru ar gyfer Delweddu, ochr yn ochr â gweithredu'r Strategaeth Trawsnewid Diagnosteg gan weithio gyda Rhaglenni Diagnostig eraill.

Hoffem achub ar y cyfle hwn i groesawu ein Arweinyddion Clinigol newydd, Dr Kakali Mitra a Dr Sally Bolt, a ddechreuodd yn eu swyddi ym mis Medi. Gweler ein herthygl isod!

Gobeithio gewch chi flas ar ein hail

## **National Imaging Programme Newsletter Q2 2023-24**

### **Welcome to the sixth edition of the National Imaging Programme Newsletter!**

As reported in the last edition, as of 1st April 2023 the NHS Wales Health Collaborative and several other organisations became part of the NHS Wales Executive. A national support function, providing strong leadership and strategic direction – enabling, supporting, and directing NHS Wales to transform clinical services in line with national priorities and standards.

On 1st October 2023, the National Imaging Programme joined the Strategic Programme for Planned Care which covers Planned Care Cancer and Diagnostics. The governance structure is still being worked through, but as part of the Diagnostics structure we remain committed to our 3-5 year vision and the delivery of Welsh Government Imaging Statement of Intent, along with the implementation of the Diagnostic Transformation Strategy working with the other Diagnostic Programmes.

We would like to take this opportunity to welcome our new Clinical Leads, Dr Kakali Mitra and Dr Sally Bolt, who commenced their roles in September. Please see our feature below!

We hope you enjoy our second newsletter of 2023-24! If you would

gylchlythyr yn 2023-24! Os hoffech gael eich ychwanegu i'r rhestr ddosbarthu, neu os oes gennych ymholiadau cyffredinol, anfonwch e-bost ar

[NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk](mailto:NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk)

like to be added to the circulation list, or have general enquiries, please email

[NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk](mailto:NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk)

## Diweddariadau ar y Ffrydiau Gwaith

## Workstream Updates

### Gweithlu ac Addysg

#### Cyflawniadau Allweddol Ch2 2023/24

- Mae'r Grŵp Trawsnewid y Gweithlu Delweddu ac Addysg (IWETG) wedi cwblhau adolygiad o'r blaenoriaethau a'r prosiectau i sicrhau eu bod yn dal i fod yn gydnaws â'r Strategaeth Trawsnewid ac Adfer Diagnosteg ar gyfer Cymru 2023-2025.
- Gwnaed cynnydd ardderchog mewn prosiect sydd â'r nod o roi sylw i argymhellion yn ymwneud â'r Gweithlu Cefnogi Radioleg a geir yn y Strategaeth ar gyfer Datblygu Model Gweithlu Radioleg i Gymru. Mae'r Gweithgor Gweithwyr Cefnogi Delweddu (ISWG) wedi gwneud adolygiad cynhwysfawr o rolau Gweithwyr Cefnogi Clinigol Radioleg (RCSWs) ym Mand 2 a Band 3, gyda'r nod o sicrhau bod y rolau hyn yn gweithredu mor effeithiol â phosibl a'u bod yn gydnaws ag anghenion gwasanaethau Radioleg i'r dyfodol. Cafodd swydd-ddisgrifiadau ar gyfer Cymru gyfan eu creu er mwyn eu safoni ac i helpu â datblygiad staff, caiff y camau nesaf eu cymryd i sicrhau y glynir wrth yr holl ofynion llywodraethu.
- Mae'r gwaith o werthuso'r addysg achrededig sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer RCSWs Band 2 a Band 3

### Workforce and Education

#### Q2 2023/24 Key Achievements

- The Imaging Workforce and Education Transformation Group (IWETG) have completed a review of priorities and projects to ensure these remain aligned to the Diagnostics Recovery and Transformation Strategy for Wales 2023-2025.
- Rapid progress has been achieved within a project aiming to address recommendations relating to the Radiology Support Workforce contained within the Strategy for Developing a Radiology Workforce Model for Wales. The Imaging Support Worker Group (ISWG) have comprehensively reviewed the roles of Radiology Clinical Support Workers (RCSWs) at Band 2 and Band 3, aiming to ensure these roles are optimised and aligned to the future needs within Radiology services. All-Wales job descriptions to facilitate standardisation and support staff development have been created, and next steps are being undertaken to ensure adherence to all governance requirements.
- Evaluation of the accredited education currently available for Band 2 and Band 3 RCSWs has been completed, and we thank all of those who took the time to provide their

wedi'i gwblhau, a hoffem ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i gyflwyno'u hadborth a'u profiadau. Cafodd papur a oedd yn rhoi manylion y canfyddiadau hyn groeso brwd, gydag IWETG yn cymeradwyo gwaith pellach i ganfod y cyfleoedd posibl ar gyfer optimeiddio.

- Mae'r gwaith o greu dogfen sy'n darparu trosolwg gweledol o rôl RCSWs yn mynd rhagddo, gyda'r nod o amlygu natur amrywiol ac arbenigol y rolau hyn ac fel maent yn wahanol i rai ym meysydd eraill Cefnogaeth Gofal lechyd.
- Mae'r ISWG ar fin dechrau adolygu rolau'r gweithlu cefnogi Band 4 ym maes Radioleg, er mwyn sicrhau bod y rhain yn gydnaws â gofynion Delweddu Diagnostig i'r dyfodol a bod mynediad teg i hyfforddiant ac addysg i'w gael ar draws Cymru.
- Mae'r gwaith ar ddogfen Canllawiau Codio ESR ddrafat bron â dod i ben, gyda'r nod o sicrhau cysondeb pan gofnodir y Gweithlu Delweddu Diagnostig ar systemau ESR. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws creu darlun mwy cywir o'r gweithlu hwn a bydd o gymorth wrth gynllunio'r gweithlu i'r dyfodol.
- Mae Harriet Ryland, Rheolwr Rhagleni ar gyfer y Ffrwd Waith Gweithlu ac Addysg, wedi symud ymlaen i gyfle newydd a chyffrous. Hoffem ddiolch iddi am ei holl waith caled gan ddymuno'r gorau iddi i'r dyfodol. Rydym wedi llwyddo i recriwtio Rheolwr Rhagleni newydd ac edrychwn ymlaen i'w croesawu i'r tîm yn y misoedd nesaf.

I gael rhagor o wybodaeth am y Ffrwd Waith Gweithlu ac Addysg, cysylltwch â [Lisa.Oyler2@wales.nhs.uk](mailto:Lisa.Oyler2@wales.nhs.uk)

feedback and experiences. A paper detailing these findings was well received, with IWETG endorsing further work to establish the potential opportunities for optimisation.

- Creation of a document providing a visual overview of the role of RCSWs is underway, aiming to highlight the varied and specialist nature of these roles and how these differ from those within other areas of Health Care Support.
- The ISWG is about to commence reviewing the roles of the Band 4 support workforce within Radiology, ensuring these are aligned to the future requirements of Diagnostic Imaging and with equitable access to training and education available across Wales.
- Work is nearing completion of a draft ESR Coding Guidance document, aiming to ensure consistency in recoding the Diagnostic Imaging Workforce on ESR systems. This will facilitate accurate visualisation of this workforce and assist with future workforce planning.
- Harriet Ryland, Programme Manager for the Workforce and Education workstream, has moved on to a new and exciting opportunity. We send her our thanks for her hard work and wish her all the very best for the future. We have successfully recruited a new Programme Manager and we are looking forward to welcoming them to the team in the coming months.

For further information on the Workforce and Education Workstream, please contact [Lisa.Oyler2@wales.nhs.uk](mailto:Lisa.Oyler2@wales.nhs.uk)

# **Ffrwd Waith Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Defnyddwyr**

## **Cyflawniadau Allweddol Ch1 2023/24**

- Cyfarfu'r Fforwm Ansawdd Delweddu Cymru gyfan (AWIQF) ar 5ed Gorffennaf a 6ed Medi 2023.
- Cymeradwywyd Cylch Gorchwyl wedi'i ddiweddu ar gyfer y Fforwm yn y cyfarfod ar 5ed Gorffennaf.
- Cyflwynodd RCR/ScoR eu hachos dros Gymeradwyo ar 6ed Medi 2023.
- Cafodd yr Achos Busnes ar gyfer achredu a staffio QSI ei gwblhau a'i gyflwyno i NIPSB ar 15fed Mehefin 2023.
- Bydd yr AWIQF yn cynnal gwerthusiad o'r opsiynau o safbwyt y camau nesaf o ran achredu gwasanaethau delweddu yng Nghymru yn dilyn cyflwyniad gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS) yn y cyfarfod nesaf ddechrau Hydref.
- Mae'r ffrwd waith wedi dal i gwmpasu AI ym maes Radioleg yng Nghymru, gan gydweithredu â Llywodraeth Cymru ac lechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'n ddyddiau cynnar iawn ar hyn o bryd a bydd, i ddechrau, yn ymchwilio i'r drefn lywodraethu ar gyfer gweithredu unrhyw AI yn ogystal ag yn archwilio ansawdd y gwasanaethau y bydd yn eu darparu a'u hategu, yn ogystal â'r risgau.
- Mae'r diweddariad o'r ddogfen Canllawiau Uwchsain wedi cael ei rannu â'r Grŵp Gwasanaethau Hanfodol Delweddu (IESG). Bellach, fe'i hanfonwyd ymlaen i Bwyllgor Cynghori Gwyddonol Cymru (WSAC) ar gyfer y camau nesaf.

# **Quality, Safety and User Experience**

## **Q1 2023/24 Key Achievements**

- The All-Wales Imaging Quality Forum (AWIQF) met on 5th July and 6th September 2023.
- Updated Terms of Reference for the Forum were approved at meeting on 5th July.
- RCR/ScoR presented their case for Endorsement on 6th September 2023.
- The Business Case for QSI staffing and accreditation was completed and taken to NIPSB on 15th June 2023.
- The AWIQF will undertake an options appraisal as to the next steps with regard to accreditation of imaging services in Wales following a presentation by the United Kingdom Accreditation Service (UKAS) at the next meeting in early October.
- Workstream has continued to scope AI within Radiology in Wales, collaborating with Welsh Government and Public Health Wales. This remains in its infancy and will initially investigate the governance around any implementation of AI as well as quality checking the services it will provide and compliment as well as the risks.
- Ultrasound Guidance update document has been shared with Imaging Essential Services Group (IESG). Has now been forwarded to Welsh Scientific Advisory Committee (WSAC) for next steps.
- The first All-Wales MRI Quality Group meeting took

- Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r Grŵp Ansawdd MRI Cymru gyfan yn rhithiol ar 14eg Mehefin 2023.
- Bydd y Grŵp Ansawdd CT Cymru gyfan cyntaf yn cyfarfod ar y 4ydd o Hydref, cynhelir y cyfarfod Ansawdd Uwchsain Cymru gyfan cyntaf ar 22ain o Dachwedd.
- Bu'r ffrwd waith yn meithrin cysylltiadau gydag Academi Ddelweddu Cymru er mwyn cynnal cyfarfodydd Ansawdd parhaus.
- Bu'r ffrwd waith yn meithrin cysylltiadau gyda'r Hwb Gwyddorau Bywyd er mwyn cynnal cyfarfodydd AI parhaus.
- Cydgasglwyd yr holl brosesau gweithredu a'r polisiau Atgyfeirwyr Anfeddygol ar gyfer Cymru. Mae'r gwaith o gynllunio'r camau nesaf yn mynd rhagddo er mwyn gweld a ellir ffurfioli dull ar gyfer Cymru gyfan.

I gael rhagor o wybodaeth am y Ffrwd Waith Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Defnyddwyr cysylltwch â [James.Triscott2@wales.nhs.uk](mailto:James.Triscott2@wales.nhs.uk)

place virtually on 14th June 2023.

- The first All-Wales CT Quality Group will meet on the 4th of October, the first All-Wales Ultrasound Quality meeting will take place on the 22nd of November.
- Workstream has been building up links with Welsh Imaging Academy for ongoing Quality meetings.
- Workstream has been building up links with the Life Sciences Hub for ongoing AI meetings.
- Collated all Non-Medical Referrer policies and implementation processes for Wales. Planning next steps to determine if an All-Wales approach can be formalised.

**For further information on the Quality, Safety and user Experience Workstream, please contact [James.Triscott2@wales.nhs.uk](mailto:James.Triscott2@wales.nhs.uk)**

## **Cynllunio Adnoddau Strategol**

### **Cyflawniadau Allweddol Ch2 2023/24**

### **Prosiect Blaenoriaethau Cyfalaf ac Offer Delweddu Cenedlaethol (PBCDC)**

### **Cam 2 – Y Broses Werthuso a Blaenoriaethu**

- Dechreuodd y broses adolygu ffurfiol gyntaf ym mis Gorffennaf 2023.
- Fe wnaeth y rhan fwyaf o'r Ymddiriedolaethau a'r Byrddau lechyd gyfranogi yn y broses, drwy gadarnhau cywirdeb y data yn y Gofrestr Asedau Genedlaethol, drwy

## **Strategic Resource Planning**

### **Q2 2023/24 Key Achievements**

### **Equipment and Capital Priorities Project (NIECP)**

### **Phase 2 – Evaluation and Prioritisation Process**

- The first formal review process commenced in July 2023.
- Most Health Boards and Trusts engaged with the process, by signing off data as accurate on the National Asset Register, undertaking an internal service evaluation

gynnal gwerthusiad mewnol o wasanaethau a chyflwyno ffurflenno manwl ar gyfer y panel, erbyn y dyddiad a bennwyd.

#### Cam 3 – Gweithredu a Sefydlu Swyddogaeth Adolygu

- Cwblhawyd llinell amser a threfn weithredu safonol ar gyfer y Panel Adolygu.
- Cynhaliwyd y Panel Adolygu ffurfiol cyntaf ddydd Mawrth 26ain Medi 2023 yn Nhŷ Afon. Cafwyd presenoldeb da yn y panel gyda 15 o aelodau yn mynchyu Tŷ Afon yn bersonol a 2 arall yn ymuno drwy MS Teams. Roedd gan bob Ymddiriedolaeth a Bwrdd Iechyd gynrychiolaeth a buont yn cyfranogi'n effeithiol, gan gyfrannu at ganlyniad llwyddiannus.
- Cafodd y Cylch Gorchwyl ar gyfer y Panel Adolygu ei gymeradwyo'n ffurfiol.
- Gweithiodd y broses sgorio'n dda ar y diwrnod, a chafwyd adborth cadarnhaol oddi wrth yr aelodau ar ddiwedd y sesiwn.
- Cafwyd y canlyniad a chwenychwyd gan y panel, a chytunwyd ar restr genedlaethol o gyfarpar blaenorriaethol fel rhan o'r trefniadau adnewyddu cyfalaif. Caiff hon ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru, y Bwrdd Diagnosteg Cenedlaethol a rhanddeiliaid allweddol eraill dros yr wythnosau nesaf.
- Penderfynwyd newid y broses adolygu ffurfiol o fod yn drefn chwarterol i drefn chwe misol, caiff y dogfennau a'r llinellau amser eu diweddar a'u datgan yn unol â hynny.

#### **PROSIECT DEALLUSRWYDD BUSNES RHAGLEN GAFFAEL Y SYSTEM GWYBODEG RADIOLEG (RISP):**

- Mae'r prosiect wrthi'n cael ei

and submitting detailed forms for panel, within the required deadline.

#### Phase 3 – Implementation and Establishment of Review Function

- Review Panel standard operating procedure and timeline finalised.
- First formal Review Panel was held on Tuesday 26th September 2023 at River House. The panel was very well attended with 15 members in person at River House and a further 2 joining via MS Teams. All Health Boards and Trusts were represented and participated pragmatically, contributing to a successful outcome.
- Terms of Reference for the Review Panel formally approved.
- The scoring process worked well on the day, with positive feedback from members at the end of the session.
- The desired outcome from the panel was achieved, with a national prioritised list of equipment agreed for capital replacement. This will be presented to Welsh Government, National Diagnostics Board and other key stakeholders in the coming weeks.
- Decision made to move the formal review process from quarterly to bi-annually, documentation and timelines will be updated and communicated accordingly.

#### **RADIOLOGY INFORMATICS SYSTEM PROCUREMENT PROGRAMME (RISPP) BUSINESS INTELLIGENCE PROJECT:**

- Project in development to provide RISPP with the requirements for the Business Intelligence aspects of the programme.

ddatblygu i ddarparu i RISPP y gofynion ar gyfer elfen Deallusrwydd Busnes y rhaglen.

- Ceisiwyd gwybodaeth gan y cyflenwr RIS newydd, a bydd hyn yn galluogi rhanddeiliaid i adolygu adroddiadau a gyflenwir i GIG Lloegr.

I gael rhagor o wybodaeth am y Ffrwd Waith Cynllunio Adnoddau Strategol, cysylltwch â [Rachel.Howells6@wales.nhs.uk](mailto:Rachel.Howells6@wales.nhs.uk)

- Information requested from new RIS supplier, which will enable stakeholders to review reports supplied to NHS England.

For further information on the Strategic Resource Planning Workstream, please contact [Rachel.Howells6@wales.nhs.uk](mailto:Rachel.Howells6@wales.nhs.uk)

### Gwybodeg, Gwybodaeth a Deallusrwydd Busnes

Rhaglen Caffael System Gwybodeg Radioleg (RCSGR) lechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW).

### Informatics, Information and Business Intelligence

Delivery of this workstream is managed via the Digital Health and Care Wales (DHCW) Radiology Informatics System Procurement (RISP) Programme.

## Penodi Arweinwyr Clinigol NIP

Cyn inni estyn croeso cynnes i'n Harweinwyr Clinigol newydd, hoffem achub ar y cyfle hwn i ddangos ein gwerthfawrogiad i Dr Sian Phillips a Dr Phillip Wardle. Dros y blynnyddoedd diwethaf, mae Dr Phillips and Dr Wardle wedi ysgwyddo'r rôl Arweinydd Clinigol ddirprwyol dros ddelweddu a chwaraeasant ran ganolog i gynyddu proffil a llais delweddu ymysg ein rhanddeiliaid allweddol. Yn fwy diweddar, maent wedi cyd-gadeirio'r Grŵp Gwasanaethau Hanfodol Delweddu (IESG) – hyn oll yn ychwanegol at eu rolau a'u hymrwymiadau clinigol/eraill gydag Academi Ddelweddu Cymru a Rhaglen Gaffael y System Gwybodeg Radioleg. Ar ran y Rhaglen Delweddu Genedlaethol a chydweithwyr ar draws cymuned ddelweddu GIG Cymru, diolch o galon ichi am eich cefnogaeth a'ch hymroddiad ac edrychwn ymlaen i ddal i gydweithio i sicrhau gwelliannau ar draws y gwasanaeth.

## Appointment of NIP Clinical Leads

Before we extend a warm welcome to our newly appointed Clinical Leads, we would like to take the opportunity show our appreciation to Dr Sian Phillips and Dr Phillip Wardle. In recent years, Dr Phillips and Dr Wardle have taken on the proxy Clinical Lead role for imaging and have been instrumental in raising the profile and voice of imaging amongst our key stakeholders. More recently, they have co-chaired the Imaging Essential Service Group (IESG) – all of this in addition to their clinical/other commitments and roles with the National Imaging Academy Wales and the Radiology Informatics System Procurement Programme. On behalf of the National Imaging Programme and colleagues across the NHS Wales imaging community, a huge thank you for your support and dedication and we look forward to continuing to work together to drive improvements across the service.

# Croeso Cynnes i'n Harweinwyr Clinigol newydd / A Warm Welcome to our new Clinical Leads:



## Dr Kakali Mitra

Daeth Kakali i'r Deyrnas Unedig yn 1994 ar ôl graddio o Goleg Meddygol Calcutta, India a hyfforddodd i ddechrau mewn llawfedygaeth ac enillodd FRCS o Gaeredin. Yna penderfynodd Kakali symud i faes radioleg i fynd ar drywydd ei chariad dros Radioleg ymyriadol a hyfforddodd gyda Chynllun Hyfforddiant Gorllewin Canoldir Lloegr wedi'i lleoli yn Stoke.

Bu Kakali yn Radiolegydd Ymyriadol Ymgynghorol yn gweithio yn BIPBC er 2007, wedi'i lleoli ym Mangor. Hi yw Cyfarwyddwr Clinigol Radioleg BIPBC a bu yn y rôl hon er 2018; cyn hynny hi oedd yr Arweinydd Clinigol dros Radioleg yn Ysbyty Gwynedd er 2013.

## Dr Kakali Mitra

Kakali came to the UK in 1994 after graduating from Calcutta Medical College, India and initially trained in surgery and did FRCS from Edinburgh. Kakali then decided to move to radiology to pursue her love for Interventional radiology and trained in West Midlands Training Scheme based at Stoke.

Kakali has been a Consultant Interventional radiologist working in BCUHB since 2007, based in Bangor. Currently the Clinical Director of Radiology for BCUHB and has been in this role since 2018, before which she was the Clinical Lead for Radiology at Ysbyty Gwynedd since 2013.

Kakali has been heavily involved in

Bu Kakali yn chwarae rhan flaenllaw yn y strategaeth ddelweddu i PBC ers blynnyddoedd lawer ac, yn fwy diweddar, y strategaeth genedlaethol dros Ddelweddu yng Nghymru ers pandemig Covid a ffurio'r IESG, grŵp y mae Kakali yn aelod gweithgar ohono. Mae Kakali yn angerddol iawn am radioleg ac yn credu'n gryf fod delweddu yn flaenllaw yn siwrnai pob claf, ac mai mater inni fel radiolegwyr ac arweinyddion clinigol yw helpu i drawsnewid a chyflwyno gwasanaeth delweddu sy'n addas at y pwrrpas i'r dyfodol.

imaging strategy for BCU for many years and, more recently, national strategy for Imaging in Wales since the Covid pandemic and the formation of IESG, of which Kakali is an active member. Kakali is very passionate about radiology and firmly believes that imaging is at the forefront of every patient's journey, and it is up to us as radiologists and clinical leaders to help transform and deliver an imaging service that is fit for purpose going forwards.



### Dr Sally Bolt

Ar ôl cychwyn fel Radiolegydd Ymgynghorol yn BIPAB yn 2010, symudodd Sally i CTM yn 2017. Daw Sally'n wreiddiol o ardal Castell-nedd, a symudodd yn ôl i Gymru ar ôl astudio meddygaeth ym Mhrifysgol Bryste.

Penodwyd Sally yn Gyfarwyddwr Clinigol Radioleg ym mis Hydref 2019 ac yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cefnogaeth Glinigol yn 2020. Ar ôl ad-drefnu'r model gweithredu, daeth Sally yn Gyfarwyddwr Meddygol ar y Grŵp Diagnosteg, Therapiâu a

### Dr Sally Bolt

Having started as a Consultant Radiologist in ABUHB in 2010, Sally moved to CTM in 2017. Originally from the Neath area, Sally moved back to Wales following studying medicine at the University of Bristol.

Sally became Clinical Director of Radiology in October 2019 and Director of Clinical Support Services in 2020. Following the reconfiguration of the operating model, Sally has become the Medical Director of the Diagnostics, Therapies and Pharmacy Care Group. Sally was appointed as

Fferylliaeth. Penodwyd Sally yn Gadeirydd ar Grŵp Cynghori Clinigol CTM ym mis Medi 2022 am gyfnod o ddwy flynedd, ac fel Dirprwy Arweinydd Clinigol Cenedlaethol dros Ddelweddu ym mis Medi 2023.

Chair of CTM's Clinical Advisory Group in September 2022 for a period of two years, and as Deputy National Clinical Lead for Imaging in September 2023.

## Cynhadledd Flynyddol NIP – Cofrestrwch Nawr / NIP Annual Conference - Registration Now Open!



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Y Weithrediaeth  
Executive  
NHS Wales Executive

# SAVE THE DATE!

## 8th November 2023

### World Radiography Day

## NATIONAL IMAGING PROGRAMME ANNUAL CONFERENCE

DRIVING IMPROVEMENT ACROSS IMAGING IN WALES



Celebrate World Radiography Day at our inaugural conference in

**Cardiff City Stadium, from 1pm**

Rydyn ni'n falch iawn o gyhoeddi y gallwch chi GOFRESTRU NAWR ar gyfer Cynhadledd Flynyddol agoriadol y Rhaglen Delweddu Genedlaethol. Cliciwch ar y ddolen isod i weld rhagor o wybodaeth a manylion sut i gofrestru:

### COFRESTRWCH YMA

Bydd y digwyddiad yn gyfle i ddysgu, ymgysylltu a rhwydweithio gyda'r gymuned ddelweddu yng Nghymru a dathlu Diwrnod Radiograffeg y Byd gyda'n gilydd!

Rydyn ni wrthi'n gwneud mân newidiadau i raglen y gynhadledd ac edrychwn ymlaen i rannu trefn y dydd gyda chi'n fuan!

**Mae llefydd yn brin ar gyfer y digwyddiad hwn – mae nifer fawr wedi cofrestru'n barod, gyda llai na 20% yn weddill, ar ôl**

We are very excited to announce that registration for the inaugural National Imaging Programme Annual Conference IS NOW OPEN! Click the link below to view further information and details on how to register:

### REGISTER HERE

The event will be an opportunity to learn, engage and network with the imaging community in Wales and celebrate World Radiography Day together!

We are putting the finishing touches to conference programme and look forward to sharing the final running order soon!

**Spaces for this event are limited – uptake so far has been impressive, with less than 20% remaining after only 2 days of taking bookings! Please**

**dim ond 2 ddiwrnod o gymryd archebion!** Sylwer mai **digwyddiad hybrid** yw hwn – cewch ddewis mynchu'n bersonol neu drwy MS Teams (nid oes cyfngiad ar y niferoedd drwy MS Teams). Edrychwn ymlaen i groesawu ein cydweithwyr o bob cwr o Gymru ar y diwrnod! Cofrestrwch nawr i gadw eich sedd ac i gael y wybodaeth ddiweddaraf i'r cynadleddwyr.

## Newyddion am y Rhaglen

### Uchafbwyntiau allweddol eraill o Chwarter 2:

- Bu Lisa Oyler a James Triscott yn y digwyddiad ‘*Tipping Point Conference - Where Next for Health and Care?*’ a drefnwyd gan Gomisiwn Bevan, sef melin drafod iechyd a gofal arweiniol Cymru ar y 5ed a'r 6ed o Orffennaf yng Ngwesty Hamdden y Celtic Manor yng Nghasnewydd.
- Fe wnaethom recriwtio'n llwyddiannus i swydd Rheolwr Rhaglen y Gweithlu yn dilyn y cyfweliadau a gynhaliwyd ym mis Awst -byddwn yn cyflwyno'r aelod newydd o'r tîm yn y rhifyn nesaf!
- Bu tîm yr NIP yn brysur iawn dros yr haf, yn gweithio â chyflenwyr, siaradwyr, noddwyr ac arddangoswyr i ddatblygu cynnwys ar gyfer y Gynhadledd Flynyddol ac edrychwn ymlaen i rannu rhagor o fanylion gyda chi yn y cyfnod cyn y digwyddiad!

note, this is a **hybrid event** – you can select to attend in person or via MS Teams (there are unlimited places via MS Teams). We look forward to welcoming colleagues from across Wales on the day! Register now to secure your place and receive up to date delegate information.

## Programme News

### Other key highlights from Quarter 2:

- Lisa Oyler and James Triscott attended the ‘*Tipping Point Conference - Where Next for Health and Care?*’ organised by the Bevan Commission, Wales’ leading health and care think tank on the 5th and 6th of July at the Celtic Manor Resort in Newport.
- Interviews held for the Workforce Programme Manager during August, resulting in a successful recruitment –our new team member will be introduced in the next edition!
- The NIP team have been very busy over the summer, working with suppliers, speakers, sponsors and exhibitors to develop content for the Annual Conference and we look forward to sharing more details with you in the run up to the event!

## Gwneud eich rhan!

Dilynwch gyfrif Twitter y Cydweithrediad [@CydGIGCymru](#)

Gwefan: [Rhaglen Delweddu](#)

## Get involved!

Follow the Collaborative Twitter account [@NHSWalesCollab](#)

Website: [National Imaging Programme - NHS Wales Executive](#)

[Genedlaethol - GIG Cymru](#)  
[Gweithrediaeth](#)

Os oes arnoch angen cysylltu ag  
aelod o dîm y Rhaglen Delweddu  
Genedlaethol, e-bostiwch:

[NHSWHC.National.Imaging.P  
rogramme@wales.nhs.uk](mailto:NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk)

**Rhifyn nesaf – Rhagfyr  
2023!**

If you need to contact a member of  
the National Imaging Programme  
team, please email:

[NHSWHC.National.Imaging.P  
rogramme@wales.nhs.uk](mailto:NHSWHC.National.Imaging.P<br/>rogramme@wales.nhs.uk)

**Next edition – December  
2023!**

NHS Wales Health Collaborative | 1st Floor, River House, Ynys Bridge Court, Gwaelod y Garth,  
Cardiff, CF15 9SS United Kingdom

[Unsubscribe helen.james13@wales.nhs.uk](#)

[Update Profile](#) |[Constant Contact Data Notice](#)

Sent by [nhswhc.commsteam@communications.wales.nhs.uk](mailto:nhswhc.commsteam@communications.wales.nhs.uk) powered by



Try email marketing for free today!